O READING
I FANGOR:

# Elliott Aboagye




**Pan ddaeth Elliot o Reading i Gymru fel myfyriwr israddedig, roedd wrth ei fodd gymaint roedd yn ddewis naturiol aros ac astudio ar gyfer ei TAR yma. Nawr mae ar genhadaeth i roi gwefr newydd yn un o bynciau craidd y cwricwlwm.**

“Pan mae pobl yn meddwl am Saesneg fel pwnc maen nhw fel arfer yn meddwl am yr ochr lenyddiaeth - ond y rhan roeddwn i wastad yn ei mwynhau fwyaf oedd ieithyddiaeth, a’r iaith ei hun.

“Mewn gwirionedd, wnes i erioed ymweld â Phrifysgol Bangor cyn i mi wneud cais a dechrau fy ngradd israddedig yno - edrychais ar leoedd mor bell o fy nghartref yn Reading er mwyn cael ychydig o annibyniaeth! Felly pan welais brifysgol yng ngogledd Cymru, wedi’i hamgylchynu gan fynyddoedd ar un ochr a’r môr ar yr ochr arall, roeddwn i’n meddwl ‘perffaith!’.

“Gwnes i fwynhau fy amser ym Mangor gymaint na wnes i ystyried gadael pan wnes i benderfynu gwneud fy ngradd meistr. A phan benderfynais wedyn wneud TAR, unwaith eto roedd yn teimlo’n iawn aros yma - er mawr siom i fy nhad, gan fy mod yn credu ei fod eisiau imi ddod yn agosach at adref i arbed rhywfaint o arian petrol iddo gan ei bod yn daith bum awr mewn car! ”

**Mae’n deg dweud bod Bangor yn dra gwahanol i dref enedigol Elliott, Reading.**

“I ddechrau, mae Reading yn wastad. Mae Bangor, ar y llaw arall, yn un bryn mawr. Roedd un bryn yn arbennig ar y ffordd i fyny i’m neuaddau blwyddyn gyntaf y byddai gyrwyr tacsi yn chwerthin arnoch chi am roi cynnig arno!

“Ond mae pawb mor gyfeillgar a chroesawgar yma yng Nghymru - roeddwn i’n teimlo ymhell o adref ond byth yn bell oddi wrth ffrindiau.”

**Felly beth wnaeth i Elliott benderfynu hyfforddi fel athro? Roedd gan ei hen athro Saesneg lawer i’w wneud â’i angerdd am ei bwnc.**

“Helpodd Miss O’Sullivan-Dale fi i fwynhau Saesneg yn yr ysgol uwchradd. Roedd ganddi’r gallu i wneud ichi deimlo eich bod yn cael eich gwobrwyo am drio, hyd yn oed os nad oeddech yn ddisgybl gwych. Ac roedd ganddi ddawn o ddisgybly rydw i’n mawr obeithio y gallaf ei dyblygu pan fyddaf yn athro - doedd hi ddim yn awdurdodol, roedd hi’n cŵl, ond roeddech chi’n gwybod ar yr un pryd na allech ddianc rhag bod yn ddiog neu’n hunanfodlon yn ei dosbarthiadau.”

**Mewn gwirionedd, mae ambell wers o’i ddyddiau ysgol y mae Elliott yn awyddus i’w defnyddio yn ei yrfa addysgu.**

“Rwy’n cofio pan oeddwn yn yr ysgol, roedd llawer o ddisgyblion yn casáu Saesneg. Y drafferth yw, mae’n un o’r pynciau craidd y mae’n rhaid i chi ei gymryd, felly yn awtomatig mae’n anodd denu disgyblion i ddangos diddordeb a gall fod ag ychydig o enw fel rhywbeth diflas.

“Rydw i eisiau newid hynny – ni ddylai Saesneg deimlo fel bocs i’w dicio dim ond oherwydd ei fod yn bwnc y mae’n rhaid i chi ei gymryd. Mae’n ddiddorol ac amrywiol iawn, ond mae angen i chi gael athro sy’n barod i roi’r ymdrech ychwanegol honno i ddod â’r pwnc fyw a dewis pwysleisio’r rhannau y gall pobl ifanc uniaethu â nhw fwyaf.

“Er enghraifft, ysgrifennais fy nhraethawd Meistr ar un o fy hoff albymau: To Pimp a Butterfly gan Kendrick Lamar. Mae Lamar yn siarad am y profiad Americanaidd Affricanaidd yn ei eiriau ac i mi mae ei eiriau yr un mor deilwng o ddadansoddiad ac ystyriaeth ag unrhyw ddarn ffurfiol o ryddiaith neu farddoniaeth - dim ond cyfrwng gwahanol ydyw oherwydd ei fod yn gerddoriaeth, ond nid yw’n llai dilys.

“Rwy’n credu os gallwn ni fel athrawon ddefnyddio ein rhyddid gyda’r cwricwlwm newydd yng Nghymru i deilwra’r hyn rydyn ni’n ei ddysgu fwy, a dewis enghreifftiau rydyn ni’n teimlo fydd yn berthnasol i’n disgyblion, byddwn ni’n helpu i ymgysylltu mwy â nhw a chreu bwrlwm am Saesneg - a nerth ein geiriau - eto.”

**Beth yw cyngor Elliott ar gyfer darpar athrawon dan hyfforddiant eraill?**

“Rhaid i chi gofio cynnwys amser ar gyfer cynllunio’ch gwersi. Rydych chi’n cael eich taflu i’r ystafell ddosbarth yn eithaf cyflym pan fyddwch chi’n dechrau eich TAR, a credwch chi fi mae’n eithaf brawychus os nad ydych chi wedi paratoi cymaint ag y dylech chi!

“Felly fy awgrym gorau yw cynllunio eich gwersi ymlaen llaw - nid y noson gynt, yr oeddwn i yn y brifysgol yn sicr yn euog o wneud hynny gyda fy nhraethodau - felly mae angen trio newid unrhyw arferion gwael y gallech fod wedi eu dechrau. Cewch chi brofiad llawer mwy dymunol os gwnewch chi hynny.”

#AddysguCymru
www.addysgwyr.cymru